Mark Drakeford AC / AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-04-367 / 394 / 430 / 431 / 455
Ein cyf/Our ref MD/03564/13

William Powell AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau
William.Powell@wales.gov.uk

Stephen.George@wales.gov.uk
Clerc y Pwyllgor

14 Rhagfyr 2013

Annwyl William

Diolch am eich llythyr dyddiedig 6 Rhagfyr am nifer o ddeisebau y mae'r Pwyllgor yn eu hystyried ar hyn o bryd mewn perthynas â newidiadau i'r Gwasanaethau Iechyd yn y Canolbarth a'r Gorllewin. Mae'r sefyllfa bresennol o ran y tri mater i'w gweld isod yn unol â'ch cais.

**Uned Mân Anafiadau Dinbych-y-pysgod**

Caewyd Uned Mân Anafiadau Dinbych-y-pysgod ar 1 Rhagfyr. Mae Bwrdd Iechyd Hywel Dda wedi rhoi sicrwydd i mi fod lefel priodol o ofal yn cael ei rhoi yn ei lle ar gyfer trigolion Dinbych-y-pysgod. Y bwriad yw adleoli'r uwch-ymarferwyr nyrsio i'r Adran Argyfwng yn Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg. Rwy'n disgwyl i'r Bwrdd Iechyd a'r Cyngor Iechyd Cymuned lleol gadw llygaid ar y sefyllfa yn Ninbych-y-pysgod ac ymateb yn briodol os yw'r darparwyr y gwasanaeth newydd yn ei chael hi'n anodd bodloni'r nifer gweddol fychan o gleifion sy'n mynd i'r cyn Uned Mân Anafiadau.

Penderfynodd y Bwrdd Iechyd gau'r Uned Mân Anafiadau yn dilyn gwerthusiad o'r gwasanaeth peilot ar gyfer mân anafiadau a oedd yn cael ei redeg gan y Groes Goch. Rwy'n deall bod y Bwrdd Iechyd yn bwriadu comisiynu gwasanaeth tebyg ar gyfer y tymor ymwelwyr yn y dyfodol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Mark.Drakeford@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

**Gwasanaethau Newyddenedigol yn Ysbytai Glangwili a Llwynhelyg**

Fel y gwyddoch, cyfeiriodd y Cyngor Iechyd Cymuned lleol gynigion y Bwrdd Iechyd i newid gwasanaethau newyddenedigol yn Ysbytai Glangwili a Llwynhelyg ataf mi benderfynu arnynt. Galwyd Panel Craffu annibynnol i roi cyngor ac argymhellion i mi yn sail i'm penderfyniad. Adroddodd y Panel Craffu yn ôl i mi ym mis Medi.

Ar 24 Medi, cefnogais argymhelliad y Panel i ddatblygu uned newyddenedigol lefel 2 yn Ysbyty Glangwili, ond rhoddais gyfarwyddyd i'r Bwrdd Iechyd i wneud darn o waith pellach i egluro'r modelau ar gyfer gwasanaethau ym maes obstetreg a mamolaeth yn yr ardal

Bellach, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud y gwaith ychwanegol hwn ac mae'r Panel Craffu'n ailymgynnull i ystyried yr adroddiad ac i roi cyngor ac argymhellion pellach i mi. Rwy'n bwriadu gwneud fy mhenderfyniad terfynol ar y mater hwn ar 21 Ionawr 2014.

**Model o Ofal Brys yn Ysbyty'r Tywysog Philip**

Hefyd, cyfeiriodd y Cyngor Iechyd Cymuned lleol gynigion y Bwrdd Iechyd ar gyfer gofal brys yn Ysbyty'r Tywysog Phillip yn Llanelli ataf i mi benderfynu arnynt. Yn dilyn cyngor y Panel Craffu, ar 24 Medi, yn y Senedd, cyhoeddais fy mhenderfyniad ar y model gofal yn yr Ysbyty.

Bydd yr Adran Argyfwng Leol yn cael ei harwain yn glinigol gan feddygon a'i chyflenwi ar y cyd ag ymarferwyr nyrsio brys. Dylai cleifion sy'n mynd i'r uned gael barn feddygol pan fo angen ac rwy'n gwbl glir y dylai'r cyfrifoldeb dros arwain yn glinigol yn yr amgylchiadau hynny, fod yn nwylo'r Ymarferwyr Cyffredinol neu'r Ymgynghorwyr fel bo'n briodol.

Gobeithio bod hyn yn rhoi'r wybodaeth angenrheidiol i'r Pwyllgor Deisebau. Yn unol â'ch cais, rwy'n mynd i anfon copïau o'r wybodaeth ddiweddar a roddwyd gan y deisebwyr, a oedd ac yn amgaeedig gyda'ch llythyr, ymlaen i'r Panel Craffu . Rwyf hefyd wedi rhoi gwybod am eich llythyr i Brif Weithredwr Bwrdd Iechyd Hywel Dda, am i'r Bwrdd fethu ag ymateb i ohebiaeth ynghylch y deisebau.

Yn gywir

Mark

**Mark Drakeford AC / AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services